**Atodiad A - Ymateb Cychwynnol Llywodraeth Cymru: Adolygiad Annibynnol o Argymhellion Trefniadau Llywodraethiant ac Atebolrwydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

**Argymhelliad 1: Dylai Cadeirydd Felindre fod â rôl fel aelod o'r panel penodi ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau, ynghyd â phroses ffurfiol ar gyfer rheoli perfformiad yn benodol mewn perthynas â rheoli busnes y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau yn effeithiol fel sy'n ofynnol o dan Reolau Sefydlog.**

**ANGEN YSTYRIAETH BELLACH**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai Felindre fod â rôl ar y panel penodi. Fodd bynnag, mae angen ystyried trefniadau rheoli perfformiad y Cadeirydd ymhellach, gan gydnabod yr angen i sefydlu atebolrwydd clir ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â lletya.

Dylid archwilio opsiynau amgen hefyd, gan gynnwys gwneud Cadeirydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn benodiad cyhoeddus. Byddai hyn yn cryfhau annibyniaeth yn y broses benodi ac yn gwella atebolrwydd i Weinidogion Cymru am ddarparu gwasanaethau a gyfarwyddir yn genedlaethol. Dylai'r trefniadau hyn ategu, yn hytrach na disodli, y fframwaith atebolrwydd presennol.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau penodi clir ar waith sy'n gweithredu o fewn canllawiau cenedlaethol a pholisïau recriwtio Felindre fel y sefydliad cyflogi, gan gynnwys cyfranogiad llawn ei Bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.**

**DERBYN**

Er bod yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn, rhaid i'r broses benodi hefyd gydymffurfio â chanllawiau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyrff y GIG – ‘Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Lywodraethiant ar gyfer Recriwtio’.

**Argymhelliad 3: Dylid nodi'n glir y gofynion ar gyfer cymeradwyo'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dylai hyn gynnwys cefnogaeth ffurfiol gan bob un o Fyrddau’r GIG yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 4: Gan fod y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau yn cyflawni swyddogaethau Felindre a nodir yn y Rheoliadau, dylai Felindre ystyried Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn benodol o ran y cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys rheolaeth a rheoli risg.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 5: Dylai'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau a'i sefydliadau cyfansoddol sicrhau eu hunain bod y broses adrodd ar berfformiad yn gweithredu fel y bwriadwyd, a bod sicrwydd yn cael ei ddarparu i bob un o Fyrddau'r GIG.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut i gynnwys Felindre fel sefydliad lletya yn y cyfarfodydd JET gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau a'i gyrff cyfansoddol fodloni eu hunain bod prosesau llywodraethiant clinigol priodol ar waith, gan gynnwys cysylltiadau â'u prosesau mewnol eu hunain a sicrwydd gan y Bwrdd lle bo hynny'n berthnasol.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 8: Dylai Felindre a'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fodloni eu hunain bod prosesau llywodraethiant clinigol y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gyson â fframwaith llywodraethiant clinigol Felindre fel y sefydliad statudol lletya.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 9: Dylid cynyddu cworwm aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau sydd â'r hawl i bleidleisio o'r 6 presennol i o leiaf 9 allan o 14.**

**GWRTHOD**

Mae arfer da yn awgrymu y dylai cworwm gynrychioli rhwng traean a hanner cyfanswm yr aelodaeth. Gyda 14 aelod sydd â hawl i bleidleisio, ystyrir bod cworwm o chwech yn ddigonol. Gallai cynyddu'r nifer hwn beri risg i effeithlonrwydd gweithredol a rhwystro gwneud penderfyniadau yn amserol ac yn effeithiol.

**Argymhelliad 10: Dylai pob corff y GIG adolygu eu cyfranogiad yn y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau a chynyddu presenoldeb yn eu cyfarfodydd i sicrhau llywodraethiant effeithiol, gan gynnwys cynrychioli buddiannau eu sefydliadau ar y Pwyllgor a darparu sicrwydd i'w Byrddau.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ailffurfio'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau gyda chyfarfod aelodaeth lefel Prif Swyddog Gweithredol 3 neu 4 gwaith y flwyddyn i drafod polisi a strategaeth gyffredinol, gyda chefnogaeth cyfarfod grŵp bob deufis gydag aelodaeth bresennol y Pwyllgor i oruchwylio gwaith cynllunio manwl, rheoli gweithredol a chyflawni gan gynnwys adrodd ar berfformiad.**

**DERBYN YN RHANNOL**

Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys Prif Weithredwyr neu eu cynrychiolwyr dynodedig. Mae'r Partneriaeth Cydwasanaethau eisoes yn ymgynnull chwe gwaith y flwyddyn, a byddai ymgorffori pedwar cyfarfod ychwanegol yn feichus. Pan fo aelodaeth yn cael ei ddirprwyo, dylai Prif Weithredwyr y GIG sicrhau eu bod yn cael sicrwydd digonol gan eu dirprwy dynodedig.

Fodd bynnag, byddai sefydlu cyfarfodydd lefel Prif Swyddog Gweithredol unwaith neu ddwywaith y flwyddyn yn fuddiol ac felly dylid eu gweithredu.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru ymgymryd ag adolygiad manwl o'r dogfennau cyfredol sy'n nodi'r fframwaith llywodraethiant ac atebolrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn glir, yn gyson ac yn adlewyrchu egwyddorion llywodraethiant da ac yn arfer a gytunwyd ar gyfer y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru o fewn perthynas letya â Felindre.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes unrhyw beth a ddysgwyd o'r fframwaith llywodraethiant ar gyfer y Cyd-bwyllgor Comisiynu neu unrhyw gorff cenedlaethol arall y dylid ei gymhwyso i fframwaith Felindre a'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 14: Ar ôl cwblhau argymhellion 12 a 13, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Felindre a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i adolygu'r trefniadau ymarferol sydd ganddynt ar waith i gyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethiant ac atebolrwydd i'w gilydd a'u haddasu yn ôl yr angen i sicrhau gweithrediad effeithiol y Cytundeb Lletya a'r Cytundeb Rhyngwyneb.**

**DERBYN YN RHANNOL**

Bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gael sicrwydd yn hytrach nag adolygu. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried mecanwaith priodol ar gyfer uwchgyfeirio lle mae barn wahanol ynghylch y trefniadau ymarferol. Os na ellir

datrys safbwyntiau gwahanol, bydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd i liniaru'r risgiau i ddarparu gwasanaethau.

**Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Felindre a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i nodi unrhyw achosion lle nad yw'r prosesau llywodraethiant cywir wedi'u rhoi ar waith. Dylid adlewyrchu unrhyw wersi a ddysgwyd fel y bo'n briodol mewn fframwaith llywodraethiant cryfach a'u rhoi ar waith yn gyson.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai sicrhau mwy o graffu allanol a mwy o welededdd i gyfrifon manwl Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn gwella llywodraethiant a thryloywder cyhoeddus, ac a oes modd rhoi trefniadau addas ar waith o dan y model llywodraethiant presennol.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau sicrhau bod proses glir ar waith ar gyfer ychwanegu gwasanaethau newydd at y portffolio cydwasanaethau. Dylai'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau gytuno ar unrhyw newidiadau lle byddai'n atebol am gynllunio a darparu'r gwasanaethau hynny.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 18: Dylai Felindre fel y corff statudol sy'n lletya gael sicrwydd bod newidiadau i'r portffolio gwasanaeth yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol a llywodraethiant mewn perthynas â'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau ystyried y cysylltiadau rhwng unrhyw wasanaethau perthnasol a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a chyrff cenedlaethol eraill y GIG ac a ddylid eu dwyn ynghyd o dan un corff neu'r llall.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 20: Dylid adolygu'r trefniadau ar gyfer lletya gwasanaethau gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i sicrhau bod llywodraethiant priodol ar waith.**

**DERBYN**

**Argymhelliad 21: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd priodol ar waith lle mae gwasanaethau yn cael eu comisiynu'n uniongyrchol gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a bod gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru y capasiti a'r gallu angenrheidiol i ymgymryd â'r cyfrifoldebau ychwanegol. Dylai'r trefniadau fod yn gyson â'r berthynas lywodraethiant rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Felindre fel y corff statudol sy'n lletya.**

**DERBYN**